**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau a Chyllid

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 9 Mai 2023 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | R Fogarty | P R Hood-Williams |
| L James | D H Jenkins | M Jones |
| J W Jones | M W Locke | B J Rowlands |

**Aelod(au) Cabinet**

| | |
|---|---|
| Y Cyng. Andrea Lewis | Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau |
| Y Cyng. Elliot King | Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant a Chydraddoldebau |
| Y Cyng. Robert Smith | Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Sarah Lackenby | Pennaeth y Gwasanaethau Digidol a Chwsmeriaid |
| Richard Rowlands | Rheolwr Cyflwyno a Pherfformiad Strategol |
| Steve King | Arweinydd y Tîm Gwybodaeth, Ymchwil a Systemau |
| Lisa DeBenedictis | Gwybodaeth Ddaearyddol Swyddog Safonau |
| Rachel Percival | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): Dim

---

69 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Nid oedd unrhyw ddatgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

70 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Dim.

71 **Cofnodion**

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

72 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

73 **Y diweddaraf am gynnydd defnydd y Llywodraeth Leol o'r Cynllun Gweithredu**

Siaradodd y Cyng Andrea Lewis a Sarah Lackenby am y canlynol,

- Deilliodd Cynllun Gweithredu Defnydd y Llywodraeth Leol o Ddata o astudiaeth Cymru Gyfan a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru i sut roedd cynghorau yn defnyddio data. Cyhoeddwyd yr adroddiad gwreiddiol ym mis Rhagfyr 2018.
- Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ac ystyrir bod pob un o'r 11 argymhelliad penodol wedi'u cau. Cymeradwywyd strategaeth digidol newydd 2023-28 gan y Cabinet ym mis Ebrill 2023, sydd â nod penodol sy'n ymwneud â data a bydd y gwaith hwn yn rhan o'r rhaglen trawsnewid digidol dros y blynyddoedd nesaf.
- Mae gwaith parhaus ar yr 11 argymhelliad yn cynnwys hyrwyddo a defnyddio'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol a Chenedlaethol a'r Gofrestr Asedau Gwybodaeth. Mae Cyfrif Abertawe ar gyfer cwsmeriaid hefyd wedi'i lansio a'i ddatblygu'n sylweddol.
- Mae hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu data a seiberddiogelwch ar gael ar-lein. Byddai hyfforddiant i Gynghorwyr hefyd o fudd iddynt.
- Mae'r cyngor yn defnyddio fframwaith Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (CRhGBC) a phrotocolau ynghylch rhannu data gyda phartneriaid.
- Bydd offer newydd yn Oracle Fusion yn cefnogi'r broses flynyddol o gynllunio'r gweithlu a bydd systemau sefydledig presennol yn parhau i weithio gyda gwasanaethau i adolygu, cymeradwyo a gwella safonau adrodd ar ddata.
- Mae data personol yn cael ei ddiogelu o dan y Ddeddf Diogelu Data. Mae fframwaith CRhGBC yn nodi protocolau ar gyfer rhannu data at ddibenion penodol gyda chytundeb, neu ddata agored sy'n ddienw ac nad yw'n sensitif y gellir ei rannu heb gytundeb.

74 **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2021/2022**

Roedd y Cynghorydd Elliot King, Y Cynghorydd Robert Smith a Lisa DeBenedictis yn bresennol. Adroddwyd ar y canlynol:

- Mae 163 o safonau'r Gymraeg y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gydymffurfio â nhw.
- Mae datblygiadau diweddar yn cynnwys gweithredu Cwtsh - Ysgrifennu yn Gymraeg, man rhithwir i staff a gwreiddio'r Gymraeg yn llawn mewn Asesiadau Effaith Integredig.
- Derbyniwyd chwe chwyn yn ymwneud â'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn hon, fodd bynnag mae dwy yn ymwneud â gofynion iaith Gymraeg ar gyfer peiriannau parcio ceir ac un yn ymwneud ag arwydd stryd ar ffordd heb ei mabwysiadu nad yw o fewn cylch gorchwyl y cyngor i'w ddarparu.
- Mae nifer y cwynion yn debyg ar gyfer Cyngor Castell-nedd Port Talbot.
- Bu cynnydd sylweddol mewn galwadau Cymraeg ac mae gwaith yn parhau i ddatblygu ar y system gwynion newydd.
- Drwy "Mwy Na Geiriau" mae'r cyngor wedi estyn ei gynnig i staff gofal cymdeithasol a thai ddysgu Cymraeg drwy'r gweithle.
- O'r cyfanswm o 2,000,000 o ymweliadau â thudalennau Staffnet yn 2021-22, roedd dros 19,000 yn ymwneud â'r Gymraeg.
- Cyflawnwyd 20% o'r gwaith cyfieithu gan ddarparwyr allanol yn ystod y cyfnod hwn oherwydd cynnydd yn y llwyth gwaith.

- Mae gwaith wedi'i wneud gyda'r tîm cyfathrebu i amlygu newidiadau a gwelliannau i negeseuon 'allan o'r swyddfa'.
- Gall y cyfryngau sylwi ar gamgymeriadau ar arwyddion ond canran fechan o arwyddion a gynhyrchir yw hyn.
- Mae canran sgiliau Cymraeg y cyngor wedi codi o 6.8% yn y flwyddyn flaenorol i 10.2%
- Mae gwybodaeth o'r Cyfrifiad diweddar yn dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe wedi gostwng, fodd bynnag mae màs critigol o siaradwyr Cymraeg yn Abertawe o hyd.

75 **Adolygiad Blynyddol**

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i ddogfennau'r Adolygiad Blynyddol a nodwyd y canlynol:

- Efallai y bydd angen mwy o hyfforddiant yn enwedig ynghylch deall y gyllideb.
- Roedd Adroddiad Perfformiad Blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru wedi helpu i gynyddu gwybodaeth y Panel o ran ble mae gwasanaethau llyfrgell yn ei chael hi'n anodd a lle gallai fod angen buddsoddiad.
- Mae'n bosib y bydd angen mwy o ddyfnder ar Ddiweddariad Blynyddol Safonau Ansawdd Tai Cymru ac mae'n ddarn mawr o waith.
- Bydd adroddiadau blynyddol a data'r flwyddyn nesaf yn cael eu heffeithio'n llai gan y pandemig na 2021-22.
- O ran Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cynllunio, byddai gan y Panel ddiddordeb mewn arbedion effeithlonrwydd, gweithrediadau a chanfyddiad y cyhoedd yn ogystal ag ystadegau perfformiad.
- Codwyd Oracle Fusion fel mater i'w ystyried ond mae hyn eisoes wedi'i gyflwyno i Bwyllgor y Rhaglen Graffu.
- Yn ogystal roedd cais am gyfeirio gwybodaeth at Gynghorwyr o ran defnyddio MiPermit nawr y bydd hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer hawlenni parcio.

76 **Llythyrau**

Daeth y cyfarfod i ben am 10.38am.

**Cadeirydd**